




Gyrfa Cymru
Careers Wales



Bwletin LMI Gyrfa Cymru: Medi 2023

Rhifyn 13: Cyhoeddwyd Medi 2023
Dyddiad y rhifyn nesaf: Chwefror 2024



Cynnwys

1. Tueddiadau Economaidd Allweddol	4
2. Tueddiadau Postio Swyddi yng Nghymru	5
3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaeth	6
4. Diswyddiadau	9
5. Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd	10
6. Diweithdra leuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET).....	13
7. Y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol	14
8. Erthygl: Cyfleoedd i Raddedigion yng Nghymru	14
9. Cefnogaeth, gwybodaeth ac ystadegau	15
10. Atodiadau	16

Hoffem glywed eich adborth am y Bwletin GML.

Cwblhewch ein [arolwg](#) os gwelwch yn dda.

Diolch

Crynodeb

1. Tueddiadau Economaidd Allweddol

Cynyddodd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru ychydig i 74%




Gostyngodd cyfradd diweithdra yng Nghymru ychydig i 3.8%




2. Tueddiadau Postio Swyddi yng Nghymru

Cynyddodd postiadau swyddi ar-lein i 85,922 o Bostiadau Swyddi Unigryw ym mis Awst 2023




3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaethau

Y 3 prif alwedigaeth gyda'r mwyaf o bostiadau swyddi ar-lein yng Nghymru, Mai i Awst 2023




4. Colli Swyddi

Mae'r gyfradd Diswyddo yn y DU wedi codi, ond mae'n parhau i fod yn aneglur yng Nghymru oherwydd cyfyngiadau data




5. Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd

Roedd diweithdra yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2023 yn 3.8% ac mae'n parhau i fod yn is na chyfradd y DU. Mae Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na'r DU.



6. Diweithdra leuenctid a NEET

Roedd 9.9% (10,200) o bobl ifanc 16-18 oed a 15.7% (35,800 o unigolion) o bobl ifanc 19-24 oed yn NEET ym mis Mawrth 2022 yng Nghymru



7. Adroddiadau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol



8. Cefnogaeth, gwybodaeth ac ystadegau



9. Erthygl: Cyfleoedd i Raddedigion yng Nghymru



1. Tueddiadau Economaidd Allweddol

Y penawdau allweddol sy'n dominyddu tueddiadau a rhagolygon y farchnad lafur yng Nghymru:

- Adroddodd [Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Llywodraeth Cymru](#) fod y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 2.1% o'r chwarter blaenorol i 74%. Gostyngodd cyfradd cyflogaeth y DU i 75.5%
- Gostyngodd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru 1.1% o'r chwarter blaenorol i 3.8%. Cynyddodd cyfradd diweithdra'r DU 0.5% o'r chwarter blaenorol i 4.3%
- Gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru 1.2% ers y chwarter blaenorol i 23.2%. Cynyddodd cyfradd anweithgarwch economaidd y DU i 21.1%
- Roedd nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru yn rhagori ar y lefelau cyn y pandemig ym mis Gorffennaf 2021, ac mae wedi aros yn uwch. Mae amcangyfrifon ar gyfer Awst 2023 yn dangos gostyngiad o 1,700 (0.1%) dros y mis i 1.32 miliwn
- Roedd 443,800 o bobl yng Nghymru a oedd yn economaidd anweithgar rhwng Mai a Gorffennaf 2023, i lawr 44,700 (9.1%) o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol
- Mae'r [IES](#) yn adrodd bod anweithgarwch economaidd ledled y DU wedi codi'n sydyn iawn ymhlith pobl ifanc (o 130,000) ond ei fod yn wastad neu'n gostwng ar gyfer grwpiau oedran eraill. Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn uchel ar gyfer pobl hŷn (gan adlewyrchu cyflogaeth is ar gyfer pobl 50-64 oed a phoblogaeth fwy o 65 oed a hŷn)
- Bu cynnydd parhaus mewn anweithgarwch economaidd oherwydd salwch hirdymor, sydd i fyny 50,000 ar y chwarter diwethaf i record newydd yn y DU o 2.6 miliwn o bobl.
- Mae'r [IES](#) yn adrodd bod cyfran y bobl ifanc mewn gwaith ac nad ydynt mewn addysg yn hanesyddol isel
- Amlygodd data NEET [Llywodraeth Cymru](#) gyfanswm o 46,000 o bobl ifanc NEET rhwng 16-24 yng Nghymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023
- Yn ôl [ONS](#) gostyngodd nifer y swyddi gwag yn y DU ar y chwarter am y 14eg cyfnod yn olynol. Rhwng Mehefin ac Awst 2023 roedd nifer y swyddi gwag yn 989,000, sef gostyngiad o 64,000 rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023. Gostyngodd swyddi gwag mewn 13 o'r 18 sector diwydiant
- Mae postiadau swyddi ar-lein misol yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol o'u lefel isaf yn y 18 mis diwethaf ar lai na 56,000 o swyddi gwag ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023 i 85,922 o Bostiadau Swyddi Unigryw ym mis Awst 2023.

Rhybudd defnyddio data: Mae angen i ni ddefnyddio data LMI yn ofalus, gweler y [Nodiadau Rhybuddiol](#) ar ddiwedd y bwletin.


2. Tueddiadau Postio Swyddi yng Nghymru

Mae amrywiadau misol mewn postiadau swyddi ar-lein yn parhau i roi syniad bras ond ymatebol inni o'r farchnad swyddi yng Nghymru. Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r niferoedd absoliwt gan eu bod yn rhoi ciplun yn unig o'r darlun recriwtio cyfan. Yn ôl eu natur, mae niferoedd postio yn amrywio'n ddyddiol ac mae dulliau casglu'n amrywio ond gallant roi syniad i ni o dueddiadau cyffredinol cyfleoedd swyddi yng Nghymru.

Tueddiadau recriwtio yng Nghymru

Fel y mae Siart Bar 1 (isod) yn ei ddangos, mae postiadau swyddi ar-lein misol yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol o'u lefel isaf yn y 18 mis diwethaf ar lai na 56,000 o swyddi gwag ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Mae postiadau swyddi wedi codi i 85,922 o bostiadau swyddi unigryw ym mis Awst 2023, cynnydd o 13.7% ar y mis blaenorol.

Siart Bar 1: Postiadau Swyddi Ar-lein Misol yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

[Atodiad 1: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Dwysedd Postio yw cyfanswm nifer y postiadau ar gyfer pob swydd wag unigryw. Er enghraifft, byddai dwyster o 3:1 ar gyfer Gorffennaf 2023 yn golygu bod pob swydd newydd ym mis Gorffennaf yn cael ei hysbysebu mewn 3 chyfrwng gwahanol. Mae galwedigaeth benodol gyda dwyster postio uwch na'r cyfartaledd o 3:1 ar gyfer mis Gorffennaf yn awgrymu bod cyflogwyr yn gwneud mwy o ymdrech i lenwi'r swydd wag honno. Arhosodd y Dwysedd Postio ar 3:1 rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2023, ond disgynnodd i 2:1 ym mis Awst 2023.


Noder: Oherwydd gwelliannau mewn dulliau casglu data gan Lightcast™ mae'r data yn Siart Bar 1 wedi'i ddiweddararu ers y Bwletin cyhoeddus diwethaf.

3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaeth

Yr 20 prif alwedigaeth a hysbysebwyd yn y cyfnod Mai i Awst 2023

Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref, a Nyrsys yw'r 2 grŵp galwedigaeth orau gyda'r cyfanswm uchaf o bostiadau swyddi ar-lein. Bu cynnydd o 18% mewn postiadau swyddi ar gyfer Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref, ond bu gostyngiad o 3% mewn Nyrsys yn ystod y cyfnod a adolygwyd. Roedd dwyster postio Gweithwyr Gofal yn cyfateb i'r cyfartaledd o 3:1, fodd bynnag, roedd dwyster postio swyddi gwag Nyrsys yn uchel, sef 8:1, mwy na dwbl y dwysedd postio cyfartalog, sy'n dangos bod galw uchel iawn am y swydd. Arhosodd Galwedigaethau Gweinyddol Eraill, Galwedigaethau Cysylltiedig â Gwerthu a Chynorthwywyr Addysgu yn y 10 prif alwedigaeth o bostiadau ar-lein yng Nghymru o rifyn blaenorol y Bwletin hwn:

Siart Bar 2: Yr 20 prif alwedigaeth a hysbysebwyd yn y cyfnod Mai i Awst 2023 yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

[Atodiad 2: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Galwedigaethau gyda galw cynyddol yn y cyfnod Mai i Awst 2023


Mae Siart Bar 3 yn dangos bod nifer o alwedigaethau wedi gweld cynnydd o fwy na 100% yn y galw yn y 4 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Pysgota a Galwedigaethau Amaethyddiaeth Eraill
- Sgaffaldwyr, Llwyfanwyr a Rigwyr
- Galwedigaethau Glanhau Sylfaenol
- Ffotograffwyr, Gweithredwyr Offer Clyweled a Darlledu

Fodd bynnag, mae'r cynnydd o 179% yn y galw am Alwedigaethau Glanhau Elfennol er enghraifft, mewn termau rhifiadol, yn ddim ond cynnydd o tua 23 (o ~30 hyd at 53) o bostiadau swyddi ledled Cymru. Efallai y bydd cynnydd mwy nodedig yn cael ei nodi mewn Gyrwyr Tryciau Fforch-Godi sydd wedi codi 60% i 230 o bostiadau.

Ni ellir ystyried y cynnydd a'r gostyngiadau yn y galw dros y cyfnod o 4 mis fel tuedd oherwydd y cyfnod byr; mae'n giplun o'r cyfnod hwnnw a gall adlewyrchu tueddiadau tymhorol a rhanbarthol yn y sector.

Siart Bar 3: Yr 20 prif alwedigaeth gyda'r cynnydd % mwyaf mewn Postiadau Swyddi Unigryw a hysbysebwyd yn y cyfnod Mai i Awst 2023 yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

[Atodiad 3: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Noder: Nid yw newid % uchel o reidrwydd yn golygu'r nifer uchaf o swyddi gwag.

Galwedigaethau lle mae galw yn gostwng yn y cyfnod Mai i Awst 2023

Yn y cyfnod rhwng Mai ac Awst 2023, roedd y galwedigaethau â'r % uchaf o ostyngiadau mewn postiadau swyddi (fel y nodir yn Nhabl 4 isod), yn cynnwys:

- Gwyddonwyr Ffisegol
- Gwyddonwyr Cemegol
- Prydferthwyr a Galwedigaethau Cysylltiedig

O ran canran, gwelwyd y cwymp mwyaf o 53% mewn Llorwyr a Theilswyr Waliau, ond mewn termau rhifiadol dim ond gostyngiad i 62 o swyddi oedd hyn.

Siart Bar 4: Yr 20 prif alwedigaeth gyda'r gostyngiad % mwyaf mewn Postiadau Swyddi Unigryw a hysbysebwyd yn y cyfnod Mai i Awst 2023 yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023


[Atodiad 4: Tabl Data Cysylltiedig](#)

4. Diswyddiadau

Mae lefelau diswyddo yng Nghymru wedi amrywio islaw lefelau cyn y pandemig ers yr aflonyddwch a achoswyd yn ystod 2020 i 2021. Mae'r datganiadau ystadegol o Chwefror – Ebrill 2022 yn cynnwys data'r DU, ond mae'r data ar gyfer Cymru wedi'i atal ar sail datgelu. Mae atal data yn digwydd pan fydd niferoedd yn disgyn o dan 3. Adlewyrchir hyn gan y bylchau yng Ngraff 5 (isod), sy'n dangos cymhariaeth o'r cyfraddau diswyddo yng Nghymru a'r DU. Mae cyfraddau diswyddo'r DU wedi bod yn cynyddu ers gostwng i 1.8% rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022.

Gwnaeth y diwydiant gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol fwy na dwbl y nifer o ddiswyddiadau rhwng Mai a Gorffennaf 2023 na'r 3 chwarter blaenorol a gofnodwyd, ledled y DU. Dangosodd y Gwasanaethau gweinyddol a chymorth a'r diwydiannau Gwybodaeth a Chyfathrebu gynnydd nodedig rhwng Mawrth – Mai 2023 ac Ebrill – Mehefin 2023, ond gostyngodd rhwng Mai – Gorffennaf 2023.

Graff 5: Cymhariaeth o Gyfraddau Diswyddo yng Nghymru a'r DU



Ffynhonnell: [ONS, Medi 2023](#)

[Atodiad 5: Tabl Data Cysylltiedig](#)


Noder: Mae ffigurau diswyddo Cymru yn seiliedig ar faint sampl bach ac felly maent yn gyfnewidiol. Gall hyn arwain at amcangyfrifon llai manwl gywir, y dylid eu defnyddio gyda gofal. Mae bylchau yn digwydd yng nghyfes amser Cymru pan fydd amcangyfrif yn cael ei atal oherwydd meintiau sampl bach.

5. Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd

Mae Graff 6 (isod) yn dangos y cymariaethau diweithdra rhwng Cymru a'r DU cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig. Ers mis Chwefror 2021, mae canran y bobl ddi-waith yng Nghymru wedi bod yn anghyson ond gyda thuedd ar i lawr o 4.9% (76,000 o unigolion) ym mis Chwefror 2021 i 3% ym mis Mawrth 2022.

Roedd y duedd gyffredinol wedyn yn dangos cynnydd sydyn, gan gyrraedd uchafbwynt o 5% (76,000 o unigolion) ym mis Mai 2023. Mae wedi gostwng ers hynny ac yn y datganiad diweddaraf ym mis Gorffennaf 2023 roedd diweithdra yng Nghymru ar 3.8% (58,000 o unigolion). Er gwaethaf y cynnydd sydyn yn gynharach eleni, mae'r data diweithdra diweddaraf ar gyfer Cymru yn parhau i fod yn is na'r gyfradd yn y DU, er yn amrywio mwy.

Graff 6: Cymhariaeth Diweithdra yng Nghymru a'r DU



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru Medi 2023](#)


[Atodiad 6: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Mae Economaidd Anweithgar yn diffinio pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, nad oeddent yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu na allant ddechrau gweithio o fewn y 2 wythnos nesaf. Yn ôl Nomis mae'r ganran fwyaf o'r economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai sydd â salwch hirdymor, y rhai sy'n gofalu am deulu neu'r cartref a phobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. Mae Graff 7 (isod) yn dangos y lefelau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r DU, heb gynnwys myfyrwyr, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2023.

Mae'r gyfradd yn y DU yn gyffredinol wedi cynyddu i 18.0% (6,820,400 o unigolion) yn y datganiad ystadegol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023. Mae'r gyfradd yng Nghymru wedi aros yn uwch na'r DU yn gyffredinol, gan gynyddu i 21.2% (369,300 o unigolion) yn y datganiad ystadegol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

Graff 7: Cymharu Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru a'r DU 16-64 oed, heb gynnwys myfyrwyr



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, Medi 2023](#)


[Atodiad 7: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Gellir adolygu poblogaeth Economaidd Anweithgar Cymru o ran y rhesymau dros anweithgarwch economaidd. Y gyfran fwyaf yw'r rhai â salwch hirdymor ar 34.5% (neu 161,623 o unigolion), ac yna'r boblogaeth myfyrwyr ar 22.7% (neu 161,623 o unigolion) ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2023.

Amlygodd y ffynhonnell ddata hon hefyd, o'r hanner miliwn o bobl economaidd anweithgar yng Nghymru, fod 17.3% neu 80,765 o bobl eisiau cael swydd.

Mae'r [Institute for Employment Studies Briefing](#) diweddaraf yn adrodd cynnydd parhaus mewn anweithgarwch economaidd ledled y DU oherwydd afiechyd hirdymor, sydd i fyny 50 mil ar y chwarter diwethaf a 500 mil ers dechrau 2020, i record newydd o 2.6 miliwn pobl. Mae ymchwil wedi dangos bod hyn yn cynyddu ar draws grwpiau oedran, a gellir dadlau mai dyma'r her gymdeithasol ac economaidd fwyaf yn y farchnad lafur o hyd.

Siart Cylch 8: Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru fesul Rheswm, Ebrill 2022 – Mawrth 2023



Ffynhonnell: [ONS, Medi 2023](#)

[Atodiad 8: Tabl Data Cysylltiedig](#)


6. Diweithdra leuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET)

Mae Graff 9 (isod) yn dangos bod canran y bobl ifanc 16 i 18 oed yr adroddwyd eu bod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) wedi gostwng 4% o 10.3% (10,900 o unigolion) rhwng Ebrill - Mehefin 2021 i 6.3% (6,500 o unigolion) yn Ebrill - Mehefin 2022, ond cynyddodd yn raddol i gyrraedd 9.9% o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru (neu gyfanswm o 10,200) rhwng Ionawr - Mawrth 2023.

Mae'r grŵp NEET 19 i 24 oed yn gyffredinol llawer uwch o gymharu â'r grŵp blwyddyn 16-18. Gostyngodd i 14% (32,100 o unigolion) rhwng Gorffennaf a Medi 2022 ond roedd wedi codi i 15.7% (35,800 o unigolion) rhwng Ionawr a Mawrth 2023.

Mae hyn yn cynrychioli cyfanswm o 46,000 o bobl ifanc NEET yng Nghymru rhwng 16 a 24 oed ar ddiwedd mis Mawrth 2023 ledled Cymru. Mae hwn yn nifer nodedig o bobl ifanc nad ydynt yn cyfrannu at economi Cymru.

Graff 9: Cymhariaeth Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET) yn y grwpiau oedran 16-18 a 19-24



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, Awst 2023](#)

[Atodiad 9: Tabl Data Cysylltiedig](#)

Noder: Mae amcangyfrifon ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben rhwng Ebrill - Mehefin 2022, Gorffennaf - Medi 2022, Hydref - Rhagfyr 2022 ac Ionawr - Mawrth 2023 yn seiliedig ar oddeutu 25 - 40 o ymatebion ac wedi'u categorïddio fel rhai ansawdd cyfyngedig. Mae rhywfaint o ddata wedi'i ddiweddararu ers y Bwletin diwethaf..

7. Y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol



[Partneriaeth Sgiliau
Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)

[Partneriaeth Sgiliau
Rhanbarthol Canolbarth
Cymru](#)

[Partneriaeth Dysgu a Sgiliau
Rhanbarthol De-Orllewin
Cymru](#)

[Partneriaeth Sgiliau
Prifddinas Ranbarth
Caerdydd](#)

Mae'r 4 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cyhoeddi eu Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol 3 blynedd (dolenni isod), sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata a thueddiadau economaidd rhanbarthol a lleol gyda chanolbwynt penodol ar sgiliau diwydiant a sgiliau sector. Mae Cynlluniau Sgiliau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn allweddol wrth lywio dull strategol Llywodraeth Cymru o gyflenwi darpariaeth cyflogaeth a sgiliau.

Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol 2022-2025 y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol:

[Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025](#)

[Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-2025](#)

[Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau De-Orllewin Cymru 2022-2025](#)

[Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2022 - 2025](#)

8. Erthygl: Cyfleoedd i Raddedigion yng Nghymru

Cyfleoedd i Raddedigion yng Nghymru



9. Cefnogaeth, gwybodaeth ac ystadegau

Mae **Cymru'n Gweithio a Gyrfu Cymru** yn cynnig gwybodaeth a chymorth gyda chynlluniau gan gynnwys

[Gwarant i Bobl Ifanc](#)

[Cyllid ReAct](#)

[Cyfrifon Dysgu Personol](#)

Gallant hefyd roi cefnogaeth gyda

[Mynd i brifysgol](#)

[Colli Swydd Prentisiaethau](#)

[Chwilio am Gyrsiau](#)

[Cael Swydd](#)

[Bwletin Swyddi](#)

Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn cynnig gwasanaethau gan gynnwys [Cael swydd](#) a [Help gyda Swydd](#) ar gyfer ceiswyr gwaith

Mae'r [Cynllun ar gyfer Swyddi](#) yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i gyflogwyr a cheiswyr gwaith.

Mae **Busnes Cymru** yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fusnesau, gan gynnwys y [Porth Sgiliau ar gyfer Busnes](#)

YSTADEGAU'R FARCHNAD LAFUR

[Trosolwg o'r farchnad lafur: Medi 2023 | LLYW.CYMRU](#)

[Business insights and impact on the UK economy | Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

[Labour market overview, UK | Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

[Diweddariad o'r farchnad lafur ym mis Medi 2023 | Senedd](#)

[Labour Market Statistics, Medi 2023 | Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth](#)

[Crynodeb blyneddol o'r farchnad lafur \(16 i 64\) yn ôl ardal leol yng Nghymru a statws gweithgarwch economaidd | StatsCymru](#)

Nodiadau rhybuddiol ar y defnydd o ffynonellau data yn yr amgylchedd presennol:

Mae ffigurau postio swyddi yn un o'r setiau data cyntaf i roi syniad ar unwaith o'r effaith ar y farchnad lafur ond dim ond arwydd ydyn nhw o ystyried:

Maent ond yn adlewyrchu cyfran o'r holl swyddi gwag, ac eithrio recriwtio anffurfiol.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r niferoedd absoliwt gan eu bod yn rhoi ciplun yn unig o'r darlun recriwtio cyfan, ac mae'r dull casglu yn cael ei wella'n barhaus. Gall y tueddiadau a welir roi syniad inni o sut yr effeithir ar gyfleoedd gwaith yng Nghymru.

Rydym yn parhau i groesawu adborth ar berthnasedd y data a'r negeseuon allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y bwletin hwn. Anfonwch eich adborth i gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru.



10. Atodiadau

Atodiad 1: Postiadau swyddi ar-lein misol yng Nghymru

Mis	Postiadau Swyddi Unigryw	% Newid misol	Dwysedd Postiadau
Mawrth 2022	74,624		3:1
Ebrill 2022	78,512	5.2	3:1
Mai 2022	75,356	-4.0	3:1
Mehefin 2022	71,736	-4.8	3:1
Gorffennaf 2022	68,722	-4.2	3:1
Awst 2022	63,546	-7.5	3:1
Medi 2022	65,343	2.8	3:1
Hydref 2022	67,326	3.0	3:1
Tachwedd 2022	66,432	-1.3	3:1
Rhagfyr 2022	62,341	-6.2	3:1
Ionawr 2023	55,765	-10.5	3:1
Chwefror 2023	55,908	0.3	3:1
Mawrth 2023	61,365	9.8	3:1
Ebrill 2023	62,939	2.6	3:1
Mai 2023	74,878	19.0	3:1
Mehefin 2023	79,879	6.7	3:1
Gorffennaf 2023	75,574	-5.4	3:1
Awst 2023	85,922	13.7	2:1

Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Medi 2023

Atodiad 2: Yr 20 prif alwedigaeth a hysbysebwyd yn y cyfnod Mawrth i Awst 2023

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaeth gyda >50 o bostiadau)	Postiadau Unigryw	Cyf. Dwysedd Postio	Postiadau Unigryw % Newid
Gweithwyr Gofal a Gofalyddion yn y Cartref	5,985	3 : 1	18%
Nyrsys	5,778	8 : 1	-3%
Galwedigaethau Gweinyddol Eraill	4,440	2 : 1	17%
Cymorthyddion Addysgu	4,272	2 : 1	12%
Galwedigaethau Cysylltiedig â Gwerthiant	4,242	2 : 1	16%
Cymorthyddion Cegin ac Arlwy	4,094	3 : 1	23%
Galwedigaethau Gwasanaethau i Gwsmeriaid	3,410	3 : 1	11%
Glanhawyr a Gwasanaethau Domestig	3,269	2 : 1	20%
Gyrrwr Fan	2,422	3 : 1	27%
Cymorthyddion Gwerthiant a Manwerthu	2,389	4 : 1	43%



Rhaglenwyr a Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Meddalwedd	2,318	2 : 1	-6%
Nyrsys Cynorthwylol a Chymorthyddion	2,236	5 : 1	-1%
Technegyddion Gwyddoniaeth, Peirianeg a Chynhyrchu	2,134	3 : 1	21%
Technegyddion Peirianeg	2,086	3 : 1	7%
Addysgu a Gweithwyr Proffesiynol Addysgol Eraill	2,077	2 : 1	14%
Rheolyddion a Pherchenogion mewn Gwasanaethau Eraill	1,892	2 : 1	1%
Derbynyddion	1,788	2 : 1	15%
Galwedigaethau Storio Elfennol	1,628	3 : 1	51%
Cymorthyddion Personol ac Ysgrifenyddion Eraill	1,611	3:1	25%
Cogyddion	1610	3:1	9%

Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

Atodiad 3: % Cynnydd mewn Postiadau Swyddi Unigryw yng Nghymru yn y cyfnod Mai i Awst 2023

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaeth gyda >50 o bostiadau)	Postiadau Unigryw	Postiadau Unigryw % Newid
Ffotograffyddion, Gweithredyddion Offer Clyweled a Darlledu	174	198%
Galwedigaethau Glanhau Sylfaenol	53	179%
Sgaffaldyddion, Llwyfanyddion a Rigwyr	66	145%
Pysgota a Galwedigaethau Amaethyddiaeth Eraill	104	121%
Gweithwyr Cadwraeth Proffesiynol	85	118%
Galwedigaethau Gwaith Prosesu Elfennol	322	108%
Dylunyddion Cynnyrch, Dillad a Chysylltiedig	80	100%
Gweithwyr Chwarel a Gweithwyr Cysylltiedig	58	100%
Nyrsys Milfeddygol	122	98%
Towyr, Teilswyr To a Towyr Llechi	57	95%
Bricwyr a Seiri	97	70%
Teipyddion a Galwedigaethau Bysellfwrdd Cysylltiedig	79	63%
Gyrwyr Tryciau Fforch-godi	230	60%
Galwedigaethau Gweinyddol y Llywodraeth Genedlaethol	103	59%
Plastrwyr	65	59%
Goruchwylyddion Crefftiau Adeiladu ac Adeiladu	138	57%
Arbenigyddion Trethi	123	57%
Gwyddonyddion Cymdeithasol a Dyniaethau	113	57%
Cyfarwyddyddion Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu	168	56%
Gyrwyr a Gweithredyddion Peiriannau Symudol	141	55%

Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

Atodiad 4: % Gostyngiad mewn Postiadau Swyddi Unigryw yng Nghymru yn y cyfnod Mai i Awst 2023

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaethau gyda >50 o bostiadau)	Postiadau Unigryw	Postiadau Unigryw % Newid
Llorwyr a Theilswyr Waliau	62	-53%
Prydferthyddion a Galwedigaethau Cysylltiedig	118	-43%
Gwyddonyddion Cemegol	200	-38%
Gwyddonyddion Ffisegol	145	-24%
Gweithwyr Proffesiynol Cyfreithiol	68	-23%
Galwedigaethau Canolfannau Galw a Chysylltu	157	-21%
Technegyddion Trydanol ac Electroneg	107	-21%
Gweithredyddion Cyfathrebu	55	-19%
Rheolyddion Eiddo, Tai ac Ystadau	326	-17%
Peiranyddion Telathrebu	152	-17%
Clerigyddion	105	-17%
Gweinyddion Gwerthu	226	-16%
Uwch Weithwyr Gofal	298	-15%
Bydwragedd	110	-15%
Prif Weithredyddion ac Uwch Swyddogion	217	-14%
Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Gwasanaethau Amddiffynnol	146	-13%
Rheolyddion Arbenigol TG	88	-13%
Athrawon Proffesiynol Addysg Bellach	70	-13%
Cwnselyddion	228	-12%
Gweithwyr Adeiladu	286	-12%

Ffynhonnell: Dadansoddeg Postio Swyddi Lightcast™, Medi 2023

Atodiad 5: Tabl yn dangos Colli Swyddi yng Nghymru a'r DU

Mis	Colli Swyddi yn y DU %	Colli Swyddi yng Nghymru %	Lefel Colli Swyddi yng Nghymru
Meh-Awst 2020	8.3	6.6	8,474
Gorf-Medi 2020	11.4	11.1	14,347
Awst-Hyd 2020	13.6	10.9	14,052
Medi-Tach 2020	14.4	13.2	16,708
Hyd-Rhag 2020	12.9	7	8,724
Tach-Ion 2021	11.5	7.8	9,782
Rhag-Chwe 2021	7.5	4.3	5,355
Ion-Maw 2021	5.4	3.1	3,957
Chwe-Ebr 2021	3.9	1.4	1,722
Maw-Mai 2021	3.8	3.1	3,895



Ebr-Meh 2021	3.6	3.5	4,464
Mai-Gorf 2021	3.4	2.9	3,747
Meh-Awst 2021	3.6	1.7	2,177
Gorf-Medi 2021	3.7	1.8	2,292
Awst-Hyd 2021	3.5	*	*
Medi-Tach 2021	2.8	3.5	4466
Hyd-Rhag 2021	2.6	3.6	4490
Tach-Ion 2022	2.4	4.5	5719
Rhag-Chwe 2022	2.7	3.3	4113
Ion-Maw 2022	2.5	2.9	3617
Chwe-Ebr 2022	2.0	*	*
Maw-Mai 2022	1.8	*	*
Ebr-Meh 2022	1.9	*	*
Mai-Gorf 2022	2.3	*	*
Meh-Awst 2022	2.4	*	*
Gorf-Medi 2022	2.7	*	*
Awst-Hyd 2022	3.1	2.9	3664
Medi-Tach 2022	3.4	2.9	3663
Hyd-Rhag 2022	3.5	*	*
Tach-Ion 2023	3.3	*	*
Rhag-Chwe 2023	3.2	*	*
Ion-Maw 2023	2.8	*	*
Chwe-Ebr 2023	3.3	3.6	4571
Maw-Mai 2023	3.3	3.3	4161
Ebr-Meh 2023	3.8	2.6	3207
Mai-Gorf 2023	3.6	*	*

Ffynhonnell: [SYG, Medi 2023](#)

Atodiad 6: Tabl yn dangos Lefelau Cyflogaeth a Diweithdra yng Nghymru a'r DU

Mis	Lefel Cyflogaeth yng Nghymru	Lefel Diweithdra yng Nghymru	Lefel Cyflogaeth yn y DU	Lefel Diweithdra yn y DU	Cyfradd Diweithdra ¹ yng Nghymru	Cyfradd Diweithdra ¹ yn y DU
Meh-Awst 20	1,444,000	58,000	32,461,000	1,549,000	3.9%	4.6%
Gorf-Medi 20	1,441,000	69,000	32,333,000	1,659,000	4.6%	4.9%
Awst-Hyd 20	1,452,000	70,000	32,309,000	1,721,000	4.6%	5.1%
Medi-Tach 20	1,456,000	72,000	32,306,000	1,747,000	4.7%	5.1%
Hyd-Rhag 20	1,456,000	69,000	32,159,000	1,773,000	4.5%	5.2%
Tach-Ion 21	1,449,000	70,000	32,126,000	1,742,000	4.6%	5.1%



Rhag-Chwe 21	1,468,000	76,000	32,168,000	1,715,000	4.9%	5.1%
Ion-Maw 21	1,475,000	69,000	32,165,000	1,673,000	4.5%	4.9%
Chwe-Ebr 21	1,476,000	65,000	32,174,000	1,655,000	4.2%	4.9%
Maw-Mai 21	1,467,000	59,000	32,191,000	1,645,000	3.9%	4.9%
Ebr-Meh 21	1,477,000	63,000	32,303,000	1,600,000	4.1%	4.7%
Mai-Gorf 21	1,494,000	66,000	32,409,000	1,556,000	4.2%	4.6%
Meh-Awst 21	1,491,000	63,000	32,489,000	1,511,000	4.1%	4.4%
Gorf-Medi 21	1,486,000	58,000	32,592,000	1,452,000	3.8%	4.3%
Awst-Hyd 21	1,477,000	56,000	32,583,000	1,423,000	3.7%	4.2%
Medi-Tach 21	1,477,000	51,000	32,561,000	1,382,000	3.3%	4.1%
Hyd-Rhag 21	1,479,000	47,000	32,567,000	1,373,000	3.1%	4.0%
Tach-Ion 22	1,475,000	46,000	32,530,000	1,346,000	3.0%	4.0%
Rhag-Chwe 22	1,470,000	45,000	32,566,000	1,298,000	3.0%	3.8%
Ion-Maw 22	1,470,000	45,000	32,632,000	1,259,000	3.0%	3.7%
Chwe-Ebr 22	1,469,000	53,000	32,707,000	1,300,000	3.5%	3.8%
Maw-Mai 22	1,472,000	58,000	32,863,000	1,285,000	3.8%	3.8%
Ebr-Meh 22	1,463,000	58,000	32,792,000	1,294,000	3.8%	3.8%
Mai-Gorf 22	1,451,000	49,000	32,746,000	1,224,000	3.3%	3.6%
Meh - Awst 22	1,447,000	50,000	32,754,000	1,188,000	3.3%	3.5%
Gorf-Medi 22	1,448,000	55,000	32,739,000	1,224,000	3.7%	3.6%
Awst-Hyd 22	1,448,000	54,000	32,773,000	1,247,000	3.6%	3.7%
Medi-Tach 22	1,451,000	51,000	32,781,000	1,244,000	3.4%	3.7%
Hyd-Rhag 22	1,435,000	52,000	32,813,000	1,270,000	3.5%	3.7%
Tach-Ion 23	1,442,000	53,000	32,839,000	1,253,000	3.5%	3.7%
Rhag-Chwe 22	1,441,000	52,000	32,950,000	1,293,000	3.5%	3.8%

Ion-Maw 22	1,425,000	68,000	32,995,000	1,329,000	4.6%	3.9%
Chwe-Ebr 22	1,441,000	73,000	33,089,000	1,305,000	4.8%	3.8%
Maw-Mai 22	1,435,000	76,000	33,053,000	1,370,000	5.0%	4.0%
Ebr-Meh 22	1,451,000	74,000	32,929,000	1,439,000	4.9%	4.2%
Mai-Gorf 22	1,484,000	58,000	32,882,000	1,464,000	3.8%	4.3%

Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, Medi 2023](#) ¹ Canran y boblogaeth Economaidd Weithgar dros 16 oed

Atodiad 7: Tabl yn dangos Gweithgarwch Economaidd ac Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru a'r DU

Diwedd Blwyddyn	Economaidd Weithgar yng Nghymru	Economaidd Anweithgar yng Nghymru (ac eithrio myfyrwyr)	Economaidd Weithgar yn y DU	Economaidd Anweithgar yn y DU (ac eithrio myfyrwyr)	% Economaidd Anweithgar yng Nghymru ¹ (ac eithrio myfyrwyr)	% Economaidd Anweithgar yn y DU ¹ (ac eithrio myfyrwyr)
31 Maw 2020	1,462,400	344,800	32,649,500	6,532,600	19.8%	17.3%
31 Maw 2021	1,433,800	354,200	32,483,500	6,548,300	20.5%	17.4%
31 Maw 2022	1,458,600	342,800	32,444,500	6,624,600	19.8%	17.6%
31 Maw 2023	1,443,600	369,300	32,525,600	6,820,400	21.2%	18.0%

Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, Medi 2023](#) ¹ Canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed

Atodiad 8: Tabl yn dangos Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru fesul Rheswm, Ebrill 2022 – Mawrth 2023

Anweithgarwch Economaidd fesul rheswm	Lefel Economaidd Anweithgar yng Nghymru	% Economaidd Anweithgar yng Nghymru
Cyfanswm rhwng 16 a 64 oed	468,008	100%
Salwch Hirdymor	161,623	34.5%
Myfyrwr	106,167	22.7%
Gofalu am deulu / cartref	80,922	17.3%
Wedi Ymddeol	55,986	12.0%
Eraill	49,542	10.6%
Salwch Dros Dro	12,167	2.6%
Gweithwyr Di-Gymhellant	1,601*	0.3%

Ffynhonnell: [SYG, Medi 2023](#)

*** NODER: Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar faint samplu bach. Gall hyn arwain at amcangyfrifon llai manwl gywir, y dylid eu defnyddio yn ofalus.**



Atodiad 9: Tabl yn dangos Pobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar gyfer grwpiau 16 i 18 oed a 19 i 24 oed

Cyfnod	Pobl Ifanc 16 - 18 oed %	Pobl Ifanc 19 - 24 oed %	Pobl Ifanc 16 - 18 oed	Pobl Ifanc 19 - 24 oed
Ion-Maw 2019	8.2%	16.2%	8,400	39,100
Ebr-Meh 2019	8.4%	15.0%	8,500	35,800
Gor-Medi 2019	8.6%	15.4%	8,600	36,500
Hyd-Rhag 2019	10.2%	15.6%	10,100	36,700
Ion-Maw 2020	9.1%	15.1%	9,100	36,000
Ebr-Meh 2020	8.3%	15.7%	8,200	37,200
Gor-Medi 2020	8.2%	14.5%	8,200	34,600
Hyd-Rhag 2020	7.8%	14.7%	7,900	34,800
Ion-Maw 2021	9.3%	15.7%	9,600	36,300
Ebr-Meh 2021	10.3%	15.3%	10,900	35,300
Gor-Medi 2021	9.1%	15.1%	9,500	34,800
Hyd-Rhag 2021	9.7%	14.7%	9,900	33,900
Ion-Mar 2022	7.6%	14.5%	7,900	33,900
Ebr-Meh 2022	6.3%	15.1%	6,500	35,200
Gor-Medi 2022	9.3%	14.0%	9,500	32,100
Hyd-Rhag 2022	8.8%	14.3%	9,300	32,400
Ion-Maw 2023	9.9%	15.7%	10,200	35,800

Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, Awst 2023](#)